

Cyngor Cymuned Cerrigydrudion
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7fed o Chwefror 2022

Presenol Guto Jones, Trystan Humphreys, Ffuon Williams, Maria Roberts (cadeirydd), Einion Edwards, Prys Ellis, John Jones, cyng Peter Lewis a Carol Humphreys (clerc). Cafwyd ymddiheuriadau gan Menai Hughes.

Datgan diddordeb Maria Roberts a Trystan Humphreys - Rhieni gyda phlant yn ysgol Cerrig y Drudion trafod cais am arian.

Cofnodion – cadarnhawyd y cofnodion blaenorol fel rhai cywir.

Materion yn codi or cofnodion

[1] Sedd Wag pasiwyd iw adael gan bod etholiad lleol yn Mis Mai ac enwebu pryd hynn os bydd rhaid.

[1.1] Cliced Giat - mae'r giat yn cau at y polyn ar hyn o bryd y spring wedi cael sylw.

[1.2] Plannu Coed ar ol gyrru at Esvllt Adair awgrymodd ein bod yn cysylltu a Haf Jones uwch swyddog Datblygu ac Ymgysylltu a chymunedau am fwy o wybodath. Y clerc a Ffuon i gyfarfod i drafod ymhellach.

[1.3] Arwyddion dim cwn y clerc wedi archebu arwyddion.

Yr Agenda

[1.4] Cadair Edward Morris Mae'r gadair wedi cyrraedd yr Ystafell y Plwyf dros dro ac yna bydd yn cael ei throsglwyddo ir Llew Gwyn lle bydd yn cael ei arddangos ir cyhoedd, yn ol dymuniad Dr Robin Gwyndaf. Mae n awyddus i bwysleisio ma rhodd ir Cyngor Cymued yw y gadair ar ddiwedd y dydd ond bod y Llew Gwyn yn leoliad mwy pwrpasol iddi gael ei gweld. Y clerc i gysylltu gyda DR Robin Gwyndaf yn diolch am y rhodd. Pasiwyd i dynnu llun y gadair ai rhoi yn y bedol gyda ychydig or hanes, cysylltu a Dr Robin Gwyndaf am wybodaeth i roi yn papur Bro.

[1.5] Ty Gobaith - llythyr yn gofyn am gyfraniad pasiwyd i gyfrannu £250.00.

[1.6] Ysgol Cerrig y Drudion llythyr y gofyn am gyfraniad tuag at y bws i gludo plant Blwyddyn 5 a 6 i Langrannog ddiwedd mis Ebrill pasiwyd i gyfrannu £300.00.

[1.7] Dwr Cymru Anfoneb am gyflenwad dwr yr Ystafell Plwyf - £12.08 wedi ei dalu.

[1.8] Scottish Power Anfoneb trydan ir Ystafell y plwyf £32.57 wedi ei dalu.

[1.9] Mr Nick Ferguson - Anfoneb am yrru gohebiaeth ir wefan - £66.79 wedi ei dalu.

[2.0] Fflam Eryri - Anfoeb am service ir boiler £106.20 pasiwyd iw dalu.

[2.1] Cyngor B Sirol Conwy - taliad olaf precept 2021 sef £1666.00.

[2.2] Ffioedd Claddu derbyniadau = £30.00 £120.00 £30.00.

[2.3] Ambiwylans Awyr Cymru - llythyr yn gofyn am gyfraniad pasiwyd i roi £500.00

[2.4] Asesiad Risg Mynwentydd wedi ei lofnodi gan y Cadeirydd.

[2.5] Asesiad Risg Cyngor Bro wedi ei lofnodi gan y Cadeirydd.

Unrhyw fater arall

[2.6] Giat bach Cae Chwarae Cae Llwyd – deallwn bod giat bach yna gored ac meddwl fasa gosod sbring ar hon er mwyn iddi gau at ei gilydd.

[2.7] Arian Fferm Wynt Bodtegir – penderfynwyd i agor cyfrif arwahan ir arian or gronfa hon y clerc i wneud ymoliadau ymhellach i sefydlu grwp cymunedol newydd.

[2.8] Plas Hafod Maidd -Nant Garegog - ysgrifennu at y Cyngor i dweud bod y tyllau yn y ffordd angen sylw.

CADEIRYDD